# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 13 Rhagfyr 2016

Amser y cyfarfod: 13.30

# 39(v3)

## 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## Cwestiwn Brys (10 munud)

I'r Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon:

**Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am adolygiad Llywodraeth Cymru o ofal cleifion sydd â salwch aciwt yn dilyn ymchwiliad beirniadol iawn yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus i ofal claf 93 oed yn Ysbyty Brenhinol Gwent?

## 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

(30 munud)

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## 3 Datganiad gan Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes: Y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru)

(60 munud)

## 4 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith: Banc Datblygu Cymru

(30 munud)

## 5 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant: Strategaeth Tlodi Plant Cymru - Adroddiad Cynnydd 2016

(30 munud)

## 6 Datganiad gan y Cwnsler Cyffredinol: Codau Cyfraith Cymru

(30 munud)

## 7 Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Cyllid Troseddol

(15 munud)

**NDM6183** Mark Drakeford (Gorllewin Caerdydd):

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6 yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried y darpariaethau yn y Bil Cyllid Troseddol, yn ymwneud â chreu trosedd newydd sef efadu trethi, i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn y Swyddfa Gyflwyno ar 1 Tachwedd 2016 yn unol â Rheol Sefydlog 29.2(i).

Mae copi o'r Bil i'w weld ar wefan Senedd y DU:

Criminal Finances Bill 2016-17 — Senedd y DU (Saesneg yn unig)

**Dogfennau Ategol**

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol

Adroddiad y Pwyllgor Cyllid

## 8 Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Rhif 2) ar y Bil Plant a Gwaith Cymdeithasol

(15 munud)

**NDM6184 Rebecca Evans (Gŵyr):**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6 yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried y darpariaethau yn y Bil Plant a Gwaith Cymdeithasol, sy'n ymwneud â gwahardd cyflogwr perthnasol rhag gwahaniaethu yn erbyn person sy'n gwneud cais am swydd gofal cymdeithasol i blant am ei bod yn ymddangos i'r cyflogwr bod yr ymgeisydd wedi gwneud datgeliad gwarchodedig, i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Tachwedd 2016 yn unol â Rheol Sefydlog 29.2(iii).

Mae copi o'r Bil i'w weld ar wefan Senedd y DU:

Bill documents — Children and Social Work Bill [HL] 2016-17 — Senedd y DU (Saesneg yn unig)

**Dogfennau Ategol**

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol

Adroddiad Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon Cynulliad Cenedlaethol Cymru

## 9 Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Symiau a Godir) (Cymru) 2016

(15 munud)

**NDM6187** Jane Hutt (Bro Morgannwg):

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5

Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Reoliadau Ardrethu Annomestig (Symiau a Godir) (Cymru) 2016 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 22 Tachwedd 2016.

**Dogfennau Ategol**
Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Symiau a Godir) (Cymru) 2016
Memorandwm Esboniadol (Saesneg yn unig)
Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

## Cynnig o dan Reol Sefydlog 12.24 i drafod y ddwy eitem a ganlyn gyda'i gilydd ond gyda phleidleisiau ar wahân:

(15 munud)

## 10 Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Ehangu Ystyr "Gweithiwr Gofal Cymdeithasol") 2016

**NDM6186** Jane Hutt (Bro Morgannwg):

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5

Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Reoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Ehangu Ystyr "Gweithiwr Gofal Cymdeithasol") 2016 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 22 Tachwedd 2016.

**Dogfennau Ategol**
Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Ehangu Ystyr "Gweithiwr Gofal Cymdeithasol") 2016
Memorandwm Esboniadol (Saesneg yn unig)
Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

## 11 Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Pennu Gweithwyr Gofal Cymdeithasol) (Cofrestru) 2016

**NDM6185 Jane Hutt (Bro Morgannwg):**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5

Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Reoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Pennu Gweithwyr Gofal Cymdeithasol) (Cofrestru) 2016 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 22 Tachwedd 2016.

**Dogfennau Ategol**
Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Pennu Gweithwyr Gofal Cymdeithasol) (Cofrestru) 2016
Memorandwm Esboniadol (Saesneg yn unig)
Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

## 12 Cyfnod pleidleisio

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 14 Rhagfyr 2016

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 8 Rhagfyr 2016
# i'w hateb ar 13 Rhagfyr 2016

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl cwestiwn 2.

## Gofyn i Brif Weinidog Cymru

1. Gareth Bennett (Canol De Cymru): Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i leddfu'r tagfeydd traffig ar y ffyrdd yng Nghanol De Cymru? OAQ(5)0344(FM)

2. Dafydd Elis-Thomas (Dwyfor Meirionnydd): Pryd y cyfarfu Prif Weinidog Cymru ddiwethaf â Phrif Weinidog y Deyrnas Unedig i drafod datblygiadau cyfansoddiadol yng Nghymru? OAQ(5)0330(FM)**W**

3. Mike Hedges (Dwyrain Abertawe): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y cynnydd sy'n cael ei wneud tuag at gyrraedd safon ansawdd tai Cymru? OAQ(5)0328(FM)

4. Jenny Rathbone (Canol Caerdydd): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gyflymder y newid sydd ei angen i drawsnewid gwasanaethau rheilffyrdd yng Nghymru? OAQ(5)0341(FM)

5. Steffan Lewis (Dwyrain De Cymru): A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ymdrechion i sicrhau adolygiad o warged Cynllun Pensiwn y Glowyr? OAQ(5)0331(FM)

6. Huw Irranca-Davies (Ogwr): Pa drafodaethau diweddar y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynghylch cysylltiad / cangen rheilffordd Heathrow? OAQ(5)0332(FM)

7. Janet Finch-Saunders (Aberconwy): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am wasanaethau rhewmatoleg yng Nghymru? OAQ(5)0338(FM)

8. Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru): Sut y bydd y polisïau yn rhaglen Llywodraeth Cymru, "Symud Cymru Ymlaen", yn cyfrannu at leddfu achosion o dlodi parhaus yng Nghymru? OAQ(5)0326(FM)

9. Dawn Bowden (Merthyr Tudful a Rhymni): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am strategaeth Llywodraeth Cymru i hyrwyddo twristiaeth yng Nghymru? OAQ(5)0335(FM)

10. Hannah Blythyn (Delyn): A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gefnogaeth Llywodraeth Cymru i arloesi mewn diwydiant? OAQ(5)0337(FM)

11. Eluned Morgan (Canolbarth a Gorllewin Cymru): A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu sut y mae Llywodraeth Cymru yn ymdrin ag effeithiau niweidiol camddefnyddio alcohol yng Nghymru? OAQ(5)0336(FM)

12. Mark Isherwood (Gogledd Cymru): Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o bobl sy'n byw mewn tlodi tanwydd? OAQ(5)0327(FM)

13. Julie Morgan (Gogledd Caerdydd): Pa gynlluniau sydd gan y Prif Weinidog i wella safonau byw yng Nghymru? OAQ(5)0343(FM)

14. Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gefnogaeth Llywodraeth Cymru i ofalwyr ifanc? OAQ(5)0342(FM)

15. Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro): A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu cynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella hyfforddiant nyrsio yn ystod y Pumed Cynulliad? OAQ(5)0334(FM)

Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Mae agendâu'r Cyfarfod Llawn yn cael eu cyhoeddi wythnos cyn pob cyfarfod, ac maent i'w gweld ar dudalen y Cyfarfod Llawn
Toriad: Dydd Llun 19 Rhagfyr 016 – dydd Sul 8 Ionawr 2017
Dydd Mawrth 10 a dydd Mercher 11 Ionawr 2017
Dydd Mawrth 17 a dydd Mercher 18 Ionawr 2017
Dydd Mawrth 24 a dydd Mercher 25 Ionawr 2017

---

Toriad: Dydd Llun 19 Rhagfyr 2016 – Dydd Sul 8 Ionawr 2017

Dydd Mawrth 10 Ionawr 2017

Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon: Ymgynghoriad ynghylch Cynllun Gweithredu Strategol Drafft ar gyfer Dementia yng Nghymru (30 munud)
- Dadl: Cyllideb Derfynol 2017-18 (60 munud)
- Dadl: Prif egwyddorion y Bil Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) (60 munud):
- Dadl ar y Penderfyniad Ariannol ynghylch y Bil Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) (5 munud)

Dydd Mercher 11 Ionawr 2017

Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol (45 munud)
- Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg (45 munud)

Busnes y Cynulliad

- Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad (30 munud)
- Datganiadau 90 Eiliad (5 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig (60 munud)
- Dadl Fer (30 munud)

**Dydd Mawrth 17 Ionawr 2017**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol: Y Bil Unedau Llafur (Cymru) (60 munud)
- Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a'r Cynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2017 (15 munud)
- Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil Cyflenwadau Meddygol (Costau) y Gwasanaeth Iechyd (15 munud)
- Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Addysg Uwch ac Ymchwil (15 munud)
- Dadl: Setliad Llywodraeth Leol 2017-18 (60 munud)

**Dydd Mercher 18 Ionawr 2017**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Datganiadau 90 Eiliad (5 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (120 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Dadl Fer (30 munud)

**Dydd Mawrth 24 Ionawr 2017**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil Cymru (90 munud)
- Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil yr Economi Ddigidol (15 munud)

**Dydd Mercher 25 Ionawr 2017**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith (45 munud)
- Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Datganiadau 90 Eiliad (5 munud)
- Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig (60 munud)
- Dadl Fer (30 munud)